OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 1022

# Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Gweinyddu) (Cymru) 2017

## RHAN 4

## Datrys anghydfodau o ran a yw dogfen yn ddarostyngedig i fraint broffesiynol gyfreithiol

**Cymhwyso'r Rhan hon**

**8.** Mae'r Rhan hon yn gymwys—

(a) pan fo ACC wedi dyroddi hysbysiad gwybodaeth i berson ddarparu gwybodaeth neu gyflwyno dogfen—

(i) yn ystod gohebiaeth; neu

(ii) yn ystod archwiliad o dan Ran 4 o'r Ddeddf CRhT, a

(b) pan fo anghydfod rhwng ACC a derbynnydd yr hysbysiad o ran a yw dogfen y gofynnwyd amdani yn ddarostyngedig i fraint broffesiynol gyfreithiol.

**Gofyniad i ddarparu gwybodaeth a chyflwyno dogfennau nad oes anghydfod yn eu cylch**

**9.** Nid oes dim yn y Rhan hon yn effeithio ar—

(a) unrhyw ofyniad o dan hysbysiad gwybodaeth i ddarparu gwybodaeth neu gyflwyno dogfen nad oes anghydfod yn ei chylch; na

(b) y pwerau o dan Ran 4 o'r Ddeddf CRhT i archwilio mangreoedd ac eiddo arall.

**Gweithdrefn pa fo anghydfod ynghylch hysbysiad gwybodaeth a roddir mewn gohebiaeth**

**10.**—(1) Mae'r weithdrefn a ganlyn yn gymwys pan fo anghydfod yn dod o fewn rheoliad 8(a)(i).

(2) Ar ôl cael hysbysiad gwybodaeth, rhaid i dderbynnydd yr hysbysiad—

(a) pennu mewn rhestr bob dogfen sy'n ofynnol o dan yr hysbysiad gwybodaeth y mae anghydfod yn ei chylch, ynghyd â disgrifiad o natur a chynnwys y ddogfen honno; a

(b) cyflwyno'r rhestr honno i ACC erbyn y dyddiad a roddir yn yr hysbysiad gwybodaeth ar gyfer cyflwyno'r ddogfen.

(3) Ond nid yw disgrifiad o'r ddogfen yn ofynnol pan fyddai disgrifiad o'r fath yn arwain at anghydfod dros fraint.

(4) O fewn 20 diwrnod gwaith i gael y rhestr y cyfeirir ati ym mharagraff (2), rhaid i ACC hysbysu derbynnydd yr hysbysiad am unrhyw ddogfen ar y rhestr y mae'n ei gwneud yn ofynnol ei chyflwyno ac y mae'n ystyried ei bod yn anfreintiedig.

(5) Ar ôl cael yr hysbysiad o dan baragraff (4), rhaid i dderbynnydd yr hysbysiad—

(a) cyflwyno unrhyw ddogfen y mae'n cytuno ei bod yn anfreintiedig; a

(b) i'r graddau bod anghydfod yn parhau ynghylch statws unrhyw ddogfen, gwneud cais i'r tribiwnlys.

(6) Rhaid i gais o dan baragraff (5)(b)—

(a) mynd gyda chopi o'r dogfennau y mae anghydfod yn parhau yn eu cylch; a

(b) cael ei wneud o fewn cyfnod rhesymol y mae derbynnydd yr hysbysiad ac ACC i gytuno arno, ond mewn unrhyw achos, yn ddim hwyrach na 20 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr hysbysiad a roddir gan ACC o dan baragraff (4).

**Gweithdrefn pan fo anghydfod ynghylch hysbysiad gwybodaeth a roddir yn ystod archwiliad eiddo**

**11.**—(1) Mae'r weithdrefn a ganlyn yn gymwys pan fo anghydfod yn dod o fewn rheoliad 8(a)(ii).

(2) Ar ôl cael yr hysbysiad gwybodaeth, rhaid i dderbynnydd yr hysbysiad—

(a) dangos i ACC bob dogfen sy'n ofynnol o dan yr hysbysiad gwybodaeth y mae anghydfod yn ei chylch; a

(b) rhoi unrhyw ddogfen y mae anghydfod yn ei chylch mewn cynhwysydd priodol sy'n rhwystro'r cynnwys rhag bod yn weladwy.

(3) Rhaid i'r cynhwysydd—

(a) cael ei selio, ei labelu a'i lofnodi gan dderbynnydd yr hysbysiad;

(b) cael ei gydlofnodi gan ACC; ac

(c) cael ei gadw gan ACC.

(4) O fewn 42 diwrnod gwaith i gael y cynhwysydd, rhaid i ACC—

(a) danfon y cynhwysydd i'r tribiwnlys gyda'r sêl yn gyflawn ynghyd â chais i'r tribiwnlys; a

(b) anfon copi o'r cais hwnnw at dderbynnydd yr hysbysiad.

**Cydymffurfio â hysbysiad gwybodaeth**

**12.** Pan fo derbynnydd yr hysbysiad yn cydymffurfio â'r weithdrefn a nodir yn y Rhan hon, mae'r person hwnnw i gael ei drin fel ei fod wedi cydymffurfio â'r hysbysiad gwybodaeth mewn perthynas ag unrhyw ddogfen y mae anghydfod yn ei chylch hyd nes bod y tribiwnlys yn dyfarnu ar statws y ddogfen neu hyd nes y deuir i gytundeb o dan reoliad 14.

**Canfyddiad y tribiwnlys**

**13.**—(1) Pan wneir cais o dan reoliad 10(5)(b) neu 11(4), rhaid i'r tribiwnlys—

(a) datrys yr anghydfod drwy gadarnhau a yw'r ddogfen yn freintiedig ai peidio, ac i ba raddau; a

(b) cyfarwyddo pa ran neu rannau o ddogfen (os oes rhai) y mae rhaid eu datgelu.

(2) Rhaid i'r tribiwnlys sicrhau nad yw unrhyw ddogfen y mae anghydfod yn ei chylch yn cael ei datgelu'n amhriodol i unrhyw berson wrth aros am ddyfarniad y tribiwnlys.

**Datrys anghydfodau drwy gytundeb**

**14.** Caniateir i anghydfod sy'n dod o fewn y Rhan hon gael ei ddatrys ar unrhyw adeg drwy gytundeb rhwng ACC a derbynnydd yr hysbysiad, naill ai yn ysgrifenedig neu fel arall.